Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Aneurin Bevan University Health Board

**Ebrill 2023**

**I: Holl gleifion sydd wedi cofrestru gyda Meddygfa'r Mount, Pont-y-pŵl, sy'n byw yn y cyfeiriad hwn.**

Annwyl glaf,

Ysgrifennodd y Bwrdd Iechyd atoch ym mis Chwefror 2023 i roi gwybod i chi fod Partneriaid Meddygon Teulu Meddygfa'r Mount wedi rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd eu bod yn dymuno dod â'u cytundeb Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i ben ar y 31ain o Orffennaf 31.

Pan fydd y Bwrdd Iechyd yn derbyn cadarnhad y bydd cytundeb yn dod i ben, mae Panel Practis Gwag yn cyfarfod i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael er mwyn sicrhau y gall cleifion barhau i gael mynediad at Bractis Meddyg Teulu. Mae cynrychiolaeth o Bwyllgor Meddygol Lleol Gwent a Llais (cyn Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan) ar y panel.

Bu i'r Panel Practis Gwag gwrdd ar yr 8fed o Chwefror 2023, a chytunwyd mai'r opsiwn mwyaf priodol oedd hysbysebu'r practis yn lleol ac yn genedlaethol gyda'r nod o recriwtio gwasanaeth i gymryd lle'r gwasanaeth blaenorol gyda Contractwr Meddyg Teulu.

Rwy'n falch o gadarnhau bod y Bwrdd Iechyd, yn dilyn ymgyrch recriwtio gadarn, wedi llwyddo i benodi partneriaeth newydd o Feddygon Teulu a fydd yn mynd ati i reoli a darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer Meddygfa'r Mount.

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth a byddwch yn parhau i allu cael mynediad at wasanaethau o Feddygfa'r Mount a Chanolfan Feddygol New Inn.

Rwyf bellach mewn sefyllfa i gadarnhau y byddwch wedi cofrestru gyda'r bartneriaeth newydd, Dr Allinson a Dr Ahmed ym Meddygfa Mount, o'r 1af o Awst 2023.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH
Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH
Rhif Ffôn: 01495 241200

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Aneurin Bevan University Health Board

Manylion y practis fydd:

| | |
|---|---|
| Meddygfa'r Mount (Prif) | Canolfan Feddygol New Inn (Cangen) |
| Canolfan Feddygol Pont-y-pŵl | The Walk |
| Oddi ar Bont y Dref | New Inn |
| Pont-y-pwl | Pont-y-pwl |
| NP4 6DH | NP4 0PU |
| Rhif Ffôn: 01495 763141 | Rhif Ffôn: 01495 763997 |

Rwy'n sylweddoli y gallai'r newyddion yma beri gofid, fodd bynnag, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth. Byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig gyda Meddygfa'r Mount ar y 1af o Awst 2023 a byddwch yn parhau i gael mynediad at wasanaethau o'r feddygfa bresennol, sef y cyfeiriad uchod.

Rhwng nawr a'r 31ain o Orffennaf 2023, bydd Dr R H Evans, Dr R Hussain a Dr T Musson yn parhau i ddarparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i'r cleifion sydd wedi cofrestru gyda'r practis. Mae'r meddygon a'r staff ym Meddygfa'r Mount wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau eich bod yn parhau i dderbyn gwasanaethau Meddyg Teulu o ansawdd uchel.

Dros yr wythnosau nesaf bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r bartneriaeth newydd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo'n ddidrafferth. Os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau ynglŷn â'r canlyniad hwn, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r Tîm Gofal Sylfaenol ar 01495 241-246/293/242.

Yr eiddoch yn gywir,

Lloyd Hambridge
**Cyfarwyddwr Adrannol Dros Dro, Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH
Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH
Rhif Ffôn: 01495 241200

**Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan**
**Aneurin Bevan Health Board is the operational name of Aneurin Bevan Local Health Board**